Cael trafferth darllen y cylchlythyr yma? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 227 (Cymru) - 30 Tachwedd 2018

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i ddatganiad polisi llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban: cynigion ar gyfer diwygio'r canfas blynyddol

Heddiw, dydd Gwener 30 Tachwedd, ry'n ni wedi cyhoeddi ein hymateb i ddatganiad polisi llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, sy'n gosod eu cynigion ar gyfer diwygio'r canfas blynyddol.

Ry'n ni'n croesawu'r cynigion i alluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr i ddefnyddio data i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y canfas blynyddol o eiddo preswyl. Dylai system cofrestru etholiadol fodern ddefnyddio data y mae gan y cyhoedd ffydd ynddo i helpu sicrhau ei fod yn para i fod yn gywir a chyflawn trwy gydol y flwyddyn.

Bydd angen gofal wrth weithredu'r newidiadau pwysig a sylweddol yn y datganiad polisi.
Rydym yn ymwybodol bod y cyfle i roi'r cynigion yma ar waith ar gyfer canfas 2020 yn brin. Ry'n ni hefyd yn gwybod bod y cynigion hyn yn dod ar adeg o ddiwygio etholiadol sylweddol i Gymru. Bydd angen ystyried yn ofalus sut bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu'n ochr yn ochr â diwygiadau eraill cofrestru etholiadol a'r etholfraint sy'n cael eu hystyried.

Mae ein hymateb yn amlygu rhai o'r prif feysydd y bydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn gweithio'n effeithiol:

- Mae'n hanfodol bod y newidiadau i ddiwygio'r canfas yn eu lle heb fod yn hwyrach na Rhagfyr 2019, o leiaf chwe mis cyn cychwyn canfas 2020. Bydd hyn yn galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i gynllunio ar gyfer y newidiadau a chael y sgiliau a'r capasiti i allu eu cyflawni'n effeithiol. Fodd bynnag, bydd eglurder yn gynharach yn bwysig i allu gwaith paratoi angenrheidiol i gefnogi rhoi'r newidiadau ar waith.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Ymateb y Comisiwn Etholiadol i ddatganiad polisi llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban: cynigion ar gyfer diwygio'r canfas blynyddol

Gwybodaeth am a dolen i ymateb y Comisiwn sydd wedi'i gyhoeddi heddiw (Dydd Gwener 30 Tachwedd).

Cofrestrau Rhagfyr 2018: casglu data etholiadol

Cais am ddata etholiadol yn dilyn cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig.

Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd *danysgrifio i'n cylchlythyr Gweinyddiaeth Etholiadol*.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael eu penodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Ry'n ni'n anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn

- Mae angen i lywodraethau'r DU sicrhau bod gwaith ar ddatblygu a chytuno ar gynlluniau gweithredu yn cael ei gyflymu i fodloni'r heriau hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion llywodraethau i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn gallu gweithio ac yn wydn.

Mae'r newidiadau yn y datganiad polisi yn gam cyntaf pwysig ymlaen i foderneiddio'r system gofrestru etholiadol ymhellach. Byddant yn golygu nad oes angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddefnyddio eu hadnoddau cyfyngedig i fynd ar ôl gwybodaeth ffurflenni'r canfas gan eiddo lle nad oes newid wedi bod. Yn yr hir dymor, fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i adeiladu ar y diwygiadau hyn i sicrhau bod gyda ni broses effeithiol gydol y flwyddyn. Mae ein hymateb yn dangos yr angen ar i lywodraethau'r DU i ddatblygu cynlluniau mwy uchelgeisiol ar gyfer diwygio cofrestru etholiadol, gan gynnwys:

- caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddefnyddio ystod ehangach o wybodaeth o ffynonellau cyhoeddus eraill i gynnal y cofrestrau;
- integreiddio cofrestru etholiadol i drafodion gwasanaethau cyhoeddus eraill; ac
- archwilio'r posibilrwydd a buddion ffurfiau mwy awtomatig o gofrestru

Cofrestrau Rhagfyr 2018: casglu data etholiadol

Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd y Comisiwn Etholiadol yn casglu data ar y canfas a chofrestrau etholiadol Rhagfyr 2018. Bydd y data yn cynorthwyo gyda gwaith y Comisiwn ar ymchwil cofrestru etholiadol a safonau perfformiad.

Fel arfer, ry'n ni wedi gweithio gyda chyflenwyr Meddalwedd Rheoli Etholiadol (EMS) i sicrhau bod adrodd awtomatig yn eich system fydd yn cynhyrchu'r data sydd ei angen arnom. Dylai gwybodaeth ynghylch sut i gynhyrchu'r adroddiad fod wedi ei ddarparu gan eich cyflenwr EMS.

Byddem yn ddiolchgar be baech yn cynhyrchu'r adroddiad (ffeil Excel/CSV) a'i anfon at research@electoralcommission.org.uk cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig, a **heb fod yn hwyrach na 21 Rhagfyr**.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn e-bostio research@electoralcommission.org.uk os ydych yn bwriadu gohirio cyhoeddi'r gofrestr heibio i 1 Rhagfyr o ganlyniad i gynnal isetholiad yn ystod cyfnod y canfas.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru

Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2018

Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.comisiwnetholiadol.org.uk/cymru/privacy-notice)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr yma mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.